**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi @senedd.cymru
senedd.cymru/ SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/ SeneddEconomy
0300 200 6565

Ian Andrew
Prif Weithredwr
Cymdeithas Rheoli Plâu Prydain

11 Mai 2023

Bil Amaethyddiaeth (Cymru) – Cynigion i wahardd defnyddio trapiau glud yng Nghymru

Annwyl Ian

Diolch am eich llythyr a dderbyniais ar 3 Mai 2023 mewn perthynas â Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ("y Bil"). Anfonwyd copi o'r llythyr hefyd at Aelodau eraill o Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn eich llythyr roeddech yn mynegi pryderon ynghylch cywirdeb ffeithiol y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru ("y Gweinidog") mewn perthynas â'r gwaharddiad arfaethedig ar drapiau glud.

Mae'r pryderon hyn yn ymwneud â thystiolaeth lafar a roddwyd gan y Gweinidog a thystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd inni mewn llythyr. Mae'r rhain yn cynnwys y defnydd o drapiau glud gan awdurdodau lleol, eu defnydd gan reolwyr plâu proffesiynol, y gefnogaeth dros wahardd defnyddio trapiau glud a'r potensial i gyflwyno cynllun trwyddedu.

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig gan y Gweinidog, a hynny'n ddidwyll. Mae tystiolaeth lafar y Gweinidog rhwng mis Medi a Thachwedd 2022 wedi bod ar gael ar gofnod cyhoeddus ers hynny, ynghyd â chopïau o ohebiaeth a anfonwyd ac a dderbyniwyd mewn perthynas â darpariaethau'r trap glud yn y Bil.

Mae'r Pwyllgor wedi cael llawer iawn o dystiolaeth, yn ysgrifenedig ac ar lafar, gan amrywiaeth o randdeiliaid, yn ogystal â'r dystiolaeth a gafwyd gan y Gweinidog. Rydym wedi ystyried y wybodaeth hon yn fanwl wrth lunio ein hadroddiad a'r argymhellion ynddo. Yn ogystal, rydym wedi gofyn am ragor o wybodaeth os ydym o'r farn y byddai hyn yn ddefnyddiol er mwyn caniatáu inni ystyried y Bil yn iawn. Fel dengys y cofnod, gwnaeth y Pwyllgor ymdrechion i gasglu rhagor o wybodaeth yn ystod

trafodion Cyfnod 1 am bryderon y gwnaethoch eu nodi wrth y Pwyllgor pan wnaethoch ddarparu tystiolaeth lafar inni. Roedd hyn yn dilyn eich cyfranogiad yn ymarfer ymgynghori Llywodraeth Cymru ar ddarpariaethau'r trapiau glud hyn yn 2021, y bu Aelodau hefyd yn ystyried eu canlyniadau fel rhan o'u gwaith craffu. Gwnaethom hefyd ysgrifennu at Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 11 Tachwedd 2022 i gael rhagor o wybodaeth am y defnydd o drapiau glud mewn adeiladau cyhoeddus ledled Cymru.

Sylwaf eich bod wedi cael copi dan embargo o adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor ar y Bil ar 25 Ionawr, cyn iddo gael ei gyhoeddi ar 27 Ionawr, ac roedd gennych ddigon o gyfle yn ystod y tri mis hynny i godi unrhyw bryderon am y dystiolaeth a ddaeth i law, naill ai gyda mi fel Cadeirydd y Pwyllgor, neu'n wir gyda'r Gweinidog yn uniongyrchol. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod y tîm clercio wedi eich gwneud yn ymwybodol o broses graffu deddfwriaethol y Senedd a sut i ddilyn hynt y Bil drwy wefan y Senedd a sianeli eraill. Mae braidd yn siomedig felly eich bod wedi dewis codi eich pryderon mor hwyr yn y broses ddeddfwriaethol.

Mae adroddiad y Pwyllgor yn neilltuo mwy na phedair tudalen i egluro a dadansoddi ein gwaith craffu a'r dystiolaeth a gafwyd mewn perthynas â darpariaethau'r trap glud yn Rhan 5 o'r Bil. Rwy'n hyderus bod Aelodau'r Pwyllgor wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r holl dystiolaeth a ddaeth i law a bod yr adroddiad yn adlewyrchu'n gywir y cydbwysedd barn gan randdeiliaid, yn ogystal â chasgliadau'r Aelodau ar ôl pwyso a mesur y dystiolaeth, ynghyd â chyfeiriadau clir at y ffynonellau tystiolaeth a ystyriwyd.

Mae'r dystiolaeth y mae'r Gweinidog wedi'i darparu, y wybodaeth a gyhoeddwyd yn y memorandwm esboniadol i'r Bil, a chywirdeb gwybodaeth o'r fath, yn fater i'r Gweinidog fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil. Sylwaf eich bod wedi anfon copi o'ch llythyr at y Gweinidog, sydd hefyd yn cael cyfle i ymateb ichi'n uniongyrchol pe bai'n dymuno gwneud hynny

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

CC:
Lesley Griffiths AS, Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Elin Jones AS, Llywydd
Y Gwir Anrhydeddus David TC Davies AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru